



Simon Thomas AM
Chair
The Finance Committee
National Assembly for Wales

19 June 2018

Annwyl Simon

Public Services Ombudsman (Wales) Bill

Thank you for your letter dated 8 May 2018 seeking my opinion on the most prudent way of ensuring amendments to the Public Services Ombudsman (Wales) Bill so as to strengthen the duties and responsibilities relating to the Welsh language.

Firstly, I should note that I am still of the view that the best way of ensuring Welsh language duties for the Ombudsman would be to make the Ombudsman subject to the Welsh language standards regime. I refer in more detail to this at the end of this letter.

However, if the intention is to impose language duties on the Ombudsman through the Bill, then, I am of the view, as you are aware, that section 71 of the Bill should be amended to include specific and clear requirements. I note that the current proposal is that this should happen by means of preparing and publishing a Welsh language strategy.

If this is the intended approach, then I believe that the Bill should clarify those matters for which the strategy makes a provision. I suggest that these include the way in which the Ombudsman uses the Welsh language in the provision of services; policy making; internal operations and associated record keeping. I also believe that the Bill should also include details in relation to the following arrangements:

- The process of agreeing the strategy,
- The time period for the strategy and arrangements for its revision/amendment
- A monitoring and reporting process and publishing performance information
- A process for dealing with complaints regarding alleged failures to implement the strategy.

Comisiynydd y Gymraeg
Siambrau'r Farchnad
5-7 Heol Eglwys Fair
Caerdydd CF10 1AT


0845 6033 221
post@comisiynyddygymraeg.org
Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg

comisiynyddygymraeg.org

Welsh Language Commissioner
Market Chambers
5-7 St Mary Street
Cardiff CF10 1AT

0845 6033 221
post@welshlanguagecommissioner.org
Correspondence welcomed in Welsh and English

welshlanguagecommissioner.org



Comisiynydd y
Gymraeg
Welsh Language
Commissioner

In terms of the way in which the Ombudsman uses the Welsh language in the provision of services, I suggest that the Bill should make clear that the strategy must at least deal with the same matters addressed in Schedule 9 of the Welsh Language (Wales) Measure 2011:

- correspondence;
- telephone calls;
- help-lines and call-centres;
- personal meetings;
- public meetings;
- publicity and advertising;
- public exhibitions;
- publications;
- forms;
- websites and online services;
- signs;
- receiving visitors;
- official notices;
- awarding grants;
- awarding contracts;
- raising awareness of Welsh language services that are available.

Furthermore, the Bill would need to ensure that the Strategy addresses matters in relation to operational standards, i.e. matters such as internal use of the Welsh language; staff training; recording language skills; and recruitment. The Bill would also need to ensure that the Strategy deals with relevant policy making matters, i.e. arrangements for assessing the impact of policy decisions on the Welsh language. Finally, the Bill would need to ensure that the Strategy included appropriate record keeping arrangements, i.e. record keeping in relation to matters such as the number of complaints received regarding the implementation of the Strategy and the language skills of the workforce.

I have already suggested that the requirements set out within the Welsh Language Standards (No. 2) Regulations 2016 could be used as a basis for a strategy, and highlighting this within the Bill would make the requirements specific and clear.

As I explained at the beginning of this letter, another approach which I have highlighted, and the option which I would favour, would be to make the Ombudsman directly subject to the Welsh Language Standards regime. In the same way, I have already outlined that the Welsh Language Standards (No. 2) Regulations 2016 would be suitable as those regulations are applicable to organisations carrying out similar functions. For example, the Auditor General, Commissioners and inspection organisations are implementing the standards under these regulations.



It would be possible for the Welsh Government to issue an order adding the Ombudsman to those regulations. There is a precedent for this in light of the fact that other bodies have been added to regulations already passed. I have recently written to the Minister for the Welsh Language and Lifelong Learning regarding this [Enc]. This option would ensure consistency in the way in which Welsh language services are provided to the public and the way in which this is regulated.

Thank you for the opportunity to provide an opinion on the amendments to the Bill. Please contact me if you have any further questions arising from this response.

Yours sincerely,

Meri Huws
Welsh Language Commissioner

Comisiynydd y Gymraeg
Siambrau'r Farchnad
5-7 Heol Eglwys Fair
Caerdydd CF10 1AT

0845 6033 221
post@comisiynyddygyymraeg.org
Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg

comisiynyddygyymraeg.org

Welsh Language Commissioner
Market Chambers
5-7 St Mary Street
Cardiff CF10 1AT

0845 6033 221
post@welshlanguagecommissioner.org
Correspondence welcomed in Welsh and English

welshlanguagecommissioner.org



Eluned Morgan AC
Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes
Llywodraeth Cymru,
Parc Cathays
Caerdydd,
CF10 3NQ

6 Mehefin 2018

Annwyl Weinidog,

Rheoliadau Safonau'r Gymraeg

Cysylltaf yn dilyn eich datganiad yr wythnos hon ynghylch Bil y Gymraeg er mwyn ceisio sicrwydd mewn perthynas â chyfundrefn safonau'r Gymraeg.


Rydych wedi cadarnhau yn eich datganiad nad oes bwriad parhau â'r rhaglen dreigl o fod yn cyflwyno rhagor o reoliadau safonau hyd nes y bydd Bil y Gymraeg yn weithredol. Golyga hynny ei bod yn ymddangos na fydd rheoliadau pellach yn cael eu cyflwyno tu hwnt i Reoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 7) 2018 a fydd yn dod i rym ar 29 Mehefin.

Fel y gwyddoch, bydd y rheoliadau hynny yn gymwys i nifer helaeth o sefydliadau o fewn y sector iechyd gan gynnwys y byrddau iechyd lleol, y cynghorau iechyd cymuned, Bwrdd Cynghorau Iechyd Cymuned ac ymddiriedolaethau'r GIG. Mae'r rheoliadau hynny hefyd yn gwneud darpariaeth i ychwanegu Gofal Cymdeithasol Cymru i Reoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 4) 2016.

Er yr ymgynghorwyd¹ ar y bwriad o ychwanegu'r holl gyrff rheoleiddio proffesiynau iechyd i Reoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 4) 2016, nid oes darpariaeth pellach wedi'i wneud er mwyn galluogi hynny ddigwydd. Gan ystyried eich datganiad felly a'r ffaith ei bod yn debygol na fydd rhagor o reoliadau safonau yn cael eu cyflwyno am gyfnod estynedig o amser, hoffwn dderbyn cadarnhau o'r bwriadau i wneud safonau'n benodol gymwys i'r sefydliadau canlynol:

- Cyngor Ceiropractig Cyffredinol
- Cyngor Deintyddol Cyffredinol
- Cyngor Meddygol Cyffredinol
- Cyngor Optegol Cyffredinol

¹ Cynhaliodd Gweinidogion Cymru ymgynghoriad cyhoeddus llawn ar reoliadau drafft oedd yn cynnwys y bwriad hwn rhwng mis Gorffennaf a mis Hydref 2016.



Comisiynydd y
Gymraeg
Welsh Language
Commissioner

- Cyngor Osteopathig Cyffredinol
- Cyngor Fferyllol Cyffredinol
- Cyngor Proffesiynau Iechyd a Gofal
- Awdurdod Safonau Proffesiynol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol
- Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth.

Fel y gallwch ddychmygu, fy nyhead yw gweld safonau yn cael eu gwneud yn benodol gymwys i'r holl sector iechyd ar y cyfle cyntaf er mwyn sicrhau cysondeb o fewn y sector cyfan heb oedi pellach.

Yn sgil y datganiad hwn, credaf hefyd y byddai'n ddefnyddiol i ddefnyddwyr sectorau eraill megis cymdeithasau tai a chwmnïau dŵr ddeall pryd bydd ganddynt hawliau i ddefnyddio'r Gymraeg a croesawn ddatganiad pellach yn egluro amserlen cyflwyno Bil y Gymraeg i'r perwyl hwnnw.

Yn ogystal, mae'n debygol eich bod yn ymwybodol y bu imi ohebu gyda'r Gweinidog blaenorol ynghylch ychwanegu sefydliadau eraill i reoliadau safonau a basiwyd eisoes drwy orchymyn. Ar 21 Chwefror y llynedd awgrymais restr o sefydliadau perthnasol y gellid eu hychwanegu i reoliadau cysylltiedig. Mae cynsail i hyn yn sgil y ffaith bod rheoliadau wedi gwneud safonau yn benodol gymwys i rai cyrff na chynhaliwyd ymchwiliadau safonau penodol iddynt (e.e. Prif Gwnstabl Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig a Phrif Gwnstabl Heddlu Niwclear Sifil).

Ar y pryd, cytunodd y Gweinidog ei fod yn cytuno bod ychwanegu cyrff i reoliadau sydd eisoes wedi dod i rym yn "ymddangos fel dull ymarferol i ddod â mwy o gyrff dan y drefn safonau" a nodwyd fod gwaith eisoes ar y gweill i lunio gorchymyn i ddiwygio Atodlen 6 y Mesur. Cadarnhawyd fod gweision sifil wedi derbyn cais ganddo i ystyried fy argymhellion ynghylch pa reoliadau fyddai fwyaf priodol i ba gyrff.

Gyda'r uchod mewn golwg, dyma ailgyflwyno rhestr o sefydliadau yr awgrymaf y dylid gwneud safonau yn benodol gymwys iddynt (Atodiad 1). Mae'r rhestr yn addasiad o'r un anfonwyd y llynedd ac yn cadarnhau fy nealltwriaeth ynghylch y cofnod(ion) priodol ar gyfer y sefydliadau o fewn Atodlenni'r Mesur, ynghyd â'r camau yr wyf fel Comisiynydd yn cynghori Gweinidogion Cymru i'w cymryd.

Hyderaf y bydd y dull hwn o weithredu yn cynorthwyo Gweinidogion Cymru i sicrhau nad yw unrhyw newidiadau arfaethedig yn arwain at golli momentwm.

Mae fy swyddogion yn fodlon iawn trafod cynnwys y rhestr hwn ymhellach gyda'ch swyddogion wedi ichi gael cyfle i ystyried y cynnwys, ond byddwn yn gwerthfawrogi eich ymateb i'r llythyr hwn cyn hynny.

Yn gywir


Meri Huws

Comisiynydd y Gymraeg



Atodiad 1

Enw'r Person Perthnasol	Cofnod y daw'r Person o fewn Atodlenni'r Mesur	Argymhelliad
Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol	Atodlen 5(2) – Personau sy'n darparu gwasanaethau i'r cyhoedd ac a gafodd eu sefydlu drwy ddeddfiad.	Pennwyd safonau gan Weinidogion Cymru, a hynny mewn perthynas â Chomisiynwyr eraill Cymru yn Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 2) 2016. Rwyf yn ystyried bod ystod y safonau cyflenwi gwasanaethau a bennwyd yn y rheoliadau hynny'n ddigonol ar gyfer swyddogaethau'r corff dan sylw. Dylai Gweinidogion Cymru enwi'r person perthnasol yn uniongyrchol drwy orchymyn gan ddiwygio'r tabl yn Atodlen 6 y Mesur a gan wneud y safonau a bennwyd yn Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 2) yn benodol gymwys iddynt.
Cymwysterau Cymru	Wedi eu henwi yn uniongyrchol yn Atodlen 6 ers Chwefror 2016	Pennwyd safonau gan Weinidogion Cymru, a hynny mewn perthynas â chyrff sydd yn gyfrifol am swyddogaethau arolygu neu reoleiddio yn Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 2) 2016. Rwyf yn ystyried bod y safonau cyflenwi gwasanaethau, ynghyd â'r dosbarthiadau eraill sydd yn gymwysadwy i bersonau Atodlen 6 yn ddigonol ar gyfer swyddogaethau'r corff dan sylw. Dylai Gweinidogion Cymru enwi'r person perthnasol drwy orchymyn gan wneud y safonau a bennwyd yn Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 2) yn benodol gymwys iddynt.



Enw'r Person Perthnasol	Cofnod y daw'r Person o fewn Atodlenni'r Mesur	Argymhelliad
Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru	Atodlen 6 – Personau sy'n arfer ar ran y Goron, swyddogaethau a roddir gan Ddeddf neu Fesur.	Pennwyd safonau gan Weinidogion Cymru, a hynny mewn perthynas â chyrrff sydd yn gyfrifol am swyddogaethau tebyg yn Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 2) 2016. Rwyf yn ystyried bod y safonau cyflenwi gwasanaethau, ynghyd a'r dosbarthiadau eraill sydd yn gymwysadwy i bersonau Atodlen 6 yn ddigonol ar gyfer swyddogaethau'r corff dan sylw. Dylai Gweinidogion Cymru enwi'r person perthnasol yn uniongyrchol drwy orchymyn gan ddiwygio'r tabl yn Atodlen 6 y Mesur a gan wneud y safonau a bennwyd yn Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 2) yn benodol gymwys iddynt.
Cyngor Defnyddwyr Dŵr	Wedi eu henwi yn uniongyrchol yn Atodlen 6 ers cymeradwyo'r Mesur	Pennwyd safonau gan Weinidogion Cymru, a hynny mewn perthynas â chyrrff sy'n gyfrifol am swyddogaethau tebyg yn Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 2) 2016. Rwyf yn ystyried bod y safonau cyflenwi gwasanaethau, ynghyd â'r dosbarthiadau eraill sydd yn gymwysadwy i bersonau Atodlen 6 yn ddigonol ar gyfer swyddogaethau'r corff dan sylw. Dylai Gweinidogion Cymru enwi'r person perthnasol drwy orchymyn gan wneud y safonau a bennwyd yn Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 2) yn benodol gymwys iddynt.
British Council	Wedi eu henwi yn uniongyrchol yn Atodlen 6 ers cymeradwyo'r Mesur	Rwyf yn ystyried bod y safonau cyflenwi gwasanaethau, ynghyd â'r dosbarthiadau eraill sydd yn gymwysadwy i bersonau Atodlen 6 yn ddigonol ar gyfer swyddogaethau'r corff dan sylw. Dylai Gweinidogion Cymru enwi'r person perthnasol drwy orchymyn gan wneud y safonau a bennwyd yn Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 2) yn benodol gymwys iddynt.




Enw'r Person Perthnasol	Cofnod y daw'r Person o fewn Atodlenni'r Mesur	Argymhelliad
Awdurdod Gwasanaethau Busnes y GIG Gwasanaeth Gwaed a Thrawsblaniadau'r GIG Addysg a Gwella lechyd Cymru	Atodlen 6 – Awdurdodau lechyd Arbennig	Cyflwynwyd ymateb i'r ymgynghoriad ar reoliadau lechyd drafft gennyf ar 14 Hydref 2016. Ers hynny, pennwyd safonau gan Weinidogion Cymru, a hynny mewn perthynas â nifer o sefydliadau o'r sector lechyd yn Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 7) 2018. Rwyf yn ystyried bod y safonau cyflenwi gwasanaethau, ynghyd â'r dosbarthiadau eraill sydd yn gymwysadwy i bersonau Atodlen 6 yn ddigonol ar gyfer swyddogaethau'r cyrff dan sylw. Dylai Gweinidogion Cymru enwi'r personau perthnasol drwy orchymyn gan wneud y safonau a bennwyd yn Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 7) yn benodol gymwys iddynt.
Comisiynydd Traffig Cymru	Atodlen 5(6) – Personau sy'n goruchwyllo rheoleiddiad proffesiwn, diwydiant neu gylch cyffelyb o weithgaredd	Pennwyd safonau gan Weinidogion Cymru, a hynny mewn perthynas â Chomisiynwyr eraill Cymru yn Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 2) 2016. Rwyf yn ystyried bod ystod y safonau cyflenwi gwasanaethau a bennwyd yn y rheoliadau hynny'n ddigonol ar gyfer swyddogaethau'r corff dan sylw. Ni fyddai'n briodol i Weinidogion Cymru bennu safonau mewn perthynas a chyflenwi gwasanaethau a chadw cofnodion yn unig, a hynny oherwydd bod y person yn dod o fewn un neu fwy o gofnodion Atodlen 5 y Mesur.



Enw'r Person Perthnasol	Cofnod y daw'r Person o fewn Atodlenni'r Mesur	Argymhelliad
		Dylai Gweinidogion Cymru enwi'r person perthnasol yn uniongyrchol drwy orchymyn gan ddiwygio'r tabl yn Atodlen 6 y Mesur a gan wneud y safonau a bennwyd yn Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 2) yn benodol gymwys iddynt.
Coleg Plismona Cenedlaethol	Atodlen 5(5) – Personau sy'n darparu gwasanaethau i'r cyhoedd ac sy'n derbyn cyfanswm o £400,000 neu fwy o arian cyhoeddus mewn blwyddyn ariannol	Mewn gorchymyn diweddar, fe hepgorwyd cofnod yr Asiantaeth Genedlaethol er Gwella Plismona o Atodlen 6 y Mesur. Mae'r Coleg Plismona Cenedlaethol bellach wedi cymryd cyfrifoldeb dros nifer o swyddogaethau'r corff blaenorol. Pennwyd safonau gan Weinidogion Cymru, a hynny mewn perthynas â phrif gwnstabiailid ac awdurdodau'r heddlu sy'n gweithredu yng Nghymru a chyrrff cysylltiedig yn Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 5) 2016. Rwyf yn ystyried bod y safonau cyflenwi gwasanaethau, ynghyd â'r dosbarthiadau eraill sydd yn gymwysadwy i bersonau Atodlen 6 yn ddigonol ar gyfer swyddogaethau'r corff dan sylw. Dylai Gweinidogion Cymru enwi'r person perthnasol drwy orchymyn yn uniongyrchol gan ddiwygio'r tabl yn Atodlen 6 y Mesur a gan wneud y safonau a bennwyd yn Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 5) yn benodol gymwys iddynt.



Enw'r Person Perthnasol	Cofnod y daw'r Person o fewn Atodlenni'r Mesur	Argymhelliad
Comisiwn Ffiniau i Gymru	Atodlen 6 – Personau sy'n arfer, ar ran y Goron, swyddogaethau a roddir gan neu o dan Ddeddf neu Fesur	Pennwyd safonau gan Weinidogion Cymru, a hynny mewn perthynas â Chomisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru yn Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 2) 2016. Rwyf yn ystyried bod y safonau cyflenwi gwasanaethau, ynghyd â'r dosbarthiadau eraill sydd yn gymwysadwy i bersonau Atodlen 6 yn ddigonol ar gyfer swyddogaethau'r corff dan sylw. Dylai Gweinidogion Cymru enwi'r person perthnasol yn uniongyrchol drwy orchymyn gan ddiwygio'r tabl yn Atodlen 6 y Mesur a gan wneud y safonau a bennwyd yn Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 2) yn benodol gymwys iddynt.
Transport Focus	Wedi eu henwi yn uniongyrchol yn Atodlen 6 ers Chwefror 2016 (disodli cofnod Ffocws ar Deithwyr)	Pennwyd safonau gan Weinidogion Cymru, a hynny mewn perthynas â chyrff sy'n gyfrifol am swyddogaethau tebyg yn Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 2) 2016. Rwyf yn ystyried y gall y safonau cyflenwi gwasanaethau, ynghyd â'r dosbarthiadau eraill sydd yn gymwysadwy i bersonau Atodlen 6 fod yn ddigonol ar gyfer swyddogaethau'r corff dan sylw ac rwyf felly'n agored i drafodaeth pellach i'r perwyl hwnnw.



Enw'r Person Perthnasol	Cofnod y daw'r Person o fewn Atodlenni'r Mesur	Argymhelliad
Awdurdod Cyllid Cymru	Atodlen 5(2) – Personau sy'n darparu gwasanaethau i'r cyhoedd ac a gafodd eu sefydlu drwy ddeddfiad.	Pennwyd safonau gan Weinidogion Cymru, a hynny mewn perthynas â swyddogaethau Gweinidogion Cymru yn Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015. Rwyf yn ystyried bod y safonau cyflenwi gwasanaethau, ynghyd â'r dosbarthiadau eraill sydd yn gymwysadwy i bersonau Atodlen 6 yn ddigonol ar gyfer swyddogaethau'r corff dan sylw. Dylai Gweinidogion Cymru enwi'r person perthnasol yn uniongyrchol drwy orchymyn gan ddiwygio'r tabl yn Atodlen 6 y Mesur a gan wneud y safonau a bennwyd yn Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) yn benodol gymwys iddynt.
Panel Dyfarnu Cymru	Atodlen 5(2) – Personau sy'n darparu gwasanaethau i'r cyhoedd ac a gafodd eu sefydlu drwy ddeddfiad.	Pennwyd safonau gan Weinidogion Cymru, a hynny mewn perthynas â swyddogaethau tribiwnlysoedd Cymru yn Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 4) 2016. Rwyf yn ystyried bod y safonau cyflenwi gwasanaethau, ynghyd â'r dosbarthiadau eraill sydd yn gymwysadwy i bersonau Atodlen 6 yn ddigonol ar gyfer swyddogaethau'r corff dan sylw. Dylai Gweinidogion Cymru enwi'r person perthnasol yn uniongyrchol drwy orchymyn gan ddiwygio'r tabl yn Atodlen 6 y Mesur a gan wneud y safonau a bennwyd yn Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 4) yn benodol gymwys iddynt.
Darparwyr cymwysterau	Atodlen 5(3)(a) – Personau wedi eu sefydlu... i ddatblygu neu ddyfarnu cymwysterau <u>neu</u>	Pennwyd safonau gan Weinidogion Cymru, a hynny mewn perthynas â chyrff sydd yn darparu gwasanaethau i fyfyrwyr yn Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 6) 2017. Rwyf yn ystyried bod y safonau cyflenwi gwasanaethau, ynghyd â'r dosbarthiadau eraill sydd yn gymwysadwy i bersonau



Enw'r Person Perthnasol	Cofnod y daw'r Person o fewn Atodlenni'r Mesur	Argymhelliad
	Atodlen 5(5) – Personau sy'n darparu gwasanaethau i'r cyhoedd ac sy'n derbyn cyfanswm o £400,000 neu fwy o arian cyhoeddus mewn blwyddyn ariannol.	Atodlen 6 yn ddigonol ar gyfer swyddogaethau'r corff dan sylw. Dylai Gweinidogion Cymru enwi'r personau perthnasol yn uniongyrchol drwy orchymyn gan ddiwygio'r tabl yn Atodlen 6 y Mesur a gan wneud y safonau a bennwyd yn Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 6) yn benodol gymwys iddynt.

Comisiynydd y Gymraeg
Siambrau'r Farchnad
5–7 Heol Eglwys Fair
Caerdydd CF10 1AT

0845 6033 221
post@comisiynyddygymraeg.cymru
Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg

comisiynyddygymraeg.cymru

The Welsh Language Commissioner
Market Chambers
5–7 St Mary Street
Cardiff CF10 1AT

0845 6033 221
post@welshlanguagecommissioner.wales
Correspondence welcomed in Welsh and English

welshlanguagecommissioner.wales